# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthin, Dydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Davies, Barry Mellor, Merfyn Parry, Pete Prendergast, David Simmons, Cefyn Williams (Chair) and Huw Williams (Vice-Chair)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddogion Gorfodi (TB ac LJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Stuart Davies a Hugh Irving

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Barry Mellor – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 4 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 509302

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif

(ii) 509302 i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn croniad o 9 pwynt cosb ar ei Drwydded Yrru DVLA rhwng Rhagfyr 2015 ac Awst 2016 yn ymwneud â dau achos o fethu cydymffurfio gyda signal golau traffig ac 1 achos o oryrru;

(iii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu adnewyddu cais y gyrrwr o ystyried yr euogfarnau a moduro a ddatgelwyd;

(iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a

(v) roedd y Gyrrwr wedi ei wahodd i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod wedi derbyn adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Rhoddodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) grynodeb o'r adroddiad ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

Eglurodd y Gyrrwr amgylchiadau pob un o'r troseddau moduro. Wrth liniaru am y methiant i gydymffurfio gyda signal golau traffig cyfeiriodd at ddylanwadau allanol a diffyg posib gyda'r signal golau traffig. O safbwynt y drosedd goryrru roedd wedi gwneud camgymeriad ynglŷn â'r terfyn cyflymder. Rhoddodd y Gyrrwr sicrhad ynglŷn â'i allu gyrru gan ddweud ei fod wedi bod â thrwydded yrru lân am wyth mlynedd cyn y digwyddiadau hynny. Wrth ateb i gwestiynau ymhelaethodd ymhellach ar bob digwyddiad a chadarnhaodd nad oedd wedi bod yn cario teithwyr oedd yn talu yn ystod yr adegau pan ddigwyddodd y troseddau.

Wrth wneud datganiad terfynol rhoddodd y Gyrrwr sicrwydd o safbwynt ei ymddygiad yn y dyfodol gan gynghori y gallai ddarparu geirdaon cwsmeriaid ynglŷn â hynny.

Yn y fan hon, cafodd y pwyllgor egwyl i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD** caniatáu cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Yrrwr Rhif 509302 gan gyflwyno rhybudd ffurfiol mewn perthynas â'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd Aelodau ffeithiau'r achos a'r ple lliniaru a gyflwynwyd gan y Gyrrwr yn ofalus. Roedd y pwyllgor o'r farn fod y Gyrrwr yn agored ac yn onest yn ei atebion ac yn credu ei farn am y digwyddiadau, ac yn credu eu bod yn dderbyniol, gyda chyfres o ddigwyddiadau anffodus yn arwain at gronni pwyntiau cosb. Roedd Aelodau'n hyderus hefyd, o wrando ar sicrwydd y Gyrrwr o safbwynt ei ymddygiad yn y dyfodol, ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded. Oherwydd y pwyntiau a gronnwyd roedd y pwyllgor yn credu y byddai rhybudd o safbwynt ymddygiad yn y dyfodol yn addas yn yr achos hwn.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

**5 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 509827**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif

(ii) 509827 i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn croniad o 12 pwynt cosb ar ei Drwydded Yrru DVLA rhwng Gorffennaf 2013 hyd at Ebrill 2016 yn ymwneud â defnyddio cerbyd heb ei yswirio (6 pwynt) a 2 achos o oryrru (cyfanswm o 6 pwynt);

(iii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i adnewyddu cais y gyrrwr oherwydd yr euogfarnau moduro a ddatgelwyd yn dilyn gwiriad arferol ar ei drwydded yrru DVLA oedd hefyd wedi datgelu cyflwr na ddatganwyd gan y Gyrrwr ar ei gais adnewyddu oedd yn ymwneud â defnyddio cerbyd heb ei yswirio.

(iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a

(v) roedd y Gyrrwr wedi ei wahodd i ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod wedi derbyn adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Rhoddodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) grynodeb o'r adroddiad ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

Wrth gyflwyno ei achos eglurodd y Gyrrwr fod ganddo chwe phwynt cosb yn parhau ar ei drwydded am ddwy drosedd o oryrru. Roedd y chwe phwynt cosb a roddwyd ar ei drwydded fis Gorffennaf 2013 am yrru cerbyd heb ei drwyddedu bellach wedi eu disbyddu. Ymddangosodd y Gyrrwr o flaen y pwyllgor wrth wneud ei gais cyntaf i egluro'r amgylchiadau ynglŷn â'r gollfarn wedi'i disbyddu honno a dyfarnwyd ei drwydded iddo. Roedd wedi bod o dan y camddealltwriaeth y byddai'r manylion hynny yn cael eu cadw ar ffeil ac er iddo sôn am y drosedd o yrru cerbyd heb ei drwyddedu wrth gyflwyno ei gais adnewyddu nid oedd wedi datgan hynny ar ei ffurflen adnewyddu. Eglurodd y Gyrrwr hefyd yr amgylchiadau ynghylch y troseddau goryrru a chadarnhaodd ei fod yn cario teithiwr oedd yn talu ar adeg yr ail drosedd goryrru. Yn olaf cyflwynodd y Gyrrwr ddogfen yswiriant yn cadarnhau ei 7 blynedd o fonws am beidio hawlio. Yn ei ddatganiad terfynol dywedodd y Gyrrwr ei fod o gymeriad da, yn yrrwr diogel a chyfrifol ac yn ŵr teulu oedd yn gweithio'n galed.

Yn y fan hon, cafodd y pwyllgor egwyl i ystyried y cais.

Roedd Aelodau am gael eglurder pellach ynglŷn â'r broses am geisiadau i adnewyddu gan ei fod yn berthnasol i'r achos hwn a chadarnhawyd er bod y Gyrrwr wedi datgan y gollfarn oedd bellach wedi'i disbyddu wrth wneud cais yn y lle cyntaf (a ddaethpwyd gerbron y pwyllgor) roedd wedi methu datgan y gollfarn honno ar ei ffurflen adnewyddu lle nodir yn glir fod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan collfarnau moduro am y 5 mlynedd diwethaf. O dan y weithdrefn cronni ystyriwyd fod yr euogfarn wedi'i disbyddu ar ôl 3 blynedd, fodd bynnag roedd yn parhau ar ei drwydded yrru DVLA am gyfanswm o 4 blynedd.

Yn ystod trafodaethau roedd barn gymysg ynglŷn â’r gosb fwyaf addas yn yr achos hwn a chafodd atal dros dro a rhybudd ffurfiol eu hawgrymu gan aelodau. O'i roi i’r bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Yrrwr Rhif 509302 ond bod y drwydded yn cael ei hatal am fis.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd Aelodau ffeithiau’r achos a’r eglurhad a roddwyd gan y Gyrrwr yn ei ble lliniaru yn ofalus. Mynegodd y pwyllgor bryderon difrifol fod y Gyrrwr wedi derbyn dau euogfarn goryrru yn ogystal â'r drosedd traffig sylweddol o fewn cyfnod o dair blynedd a’i fod wedi methu datgan ei holl euogfarnau moduro ar ei gais adnewyddu, er bod cyfarwyddyd clir i wneud hynny, nad oedd yn adlewyrchu'n dda ar ei gymeriad. Wrth ystyried y cais roedd aelodau yn fodlon fod y Gyrrwr yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded a chytunwyd i ganiatáu’r cais adnewyddu. Fodd bynnag bu cymysgedd barn wrth ystyried y gosb yn yr achos hwn ond wedi pleidlais penderfynwyd atal y drwydded am fis.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

## 6 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/0269/TXJDR

[Datganodd y Cynghorydd Mellor gysylltiad personol yn yr eitem hon gan ei fod yn adnabod dau o'r tystion yn yr achos hwn a gadawodd y cyfarfod pan fu’r pwyllgor yn ystyried yr eitem hon]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif

(ii) 15/0269/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat wedi cwyn am gythraul gyrru;

(iii) manylion ac amgylchiadau yn gysylltiedig â'r drosedd wedi’u rhoi ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig ac roedd dogfennaeth ynghlwm wrth yr adroddiad;

(iv) roedd y Gyrrwr wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Trwyddedu o’r blaen ar 10 Mehefin 2015, a chanlyniad yr achos hwnnw, a

(v) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi’r adolygiad o’i drwydded, ac i ateb cwestiynau’r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i Gynrychiolydd Cyfreithiol, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor.

Amlinellodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r achos fel y manylir yn yr adroddiad.

Cynghorodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol nad oedd y Gyrrwr am ddadlau yn erbyn y mwyafrif o'r honiadau yn natganiadau'r tystion ac roedd wedi derbyn ei ymddygiad yn ystod y cyfweliad. Rhoddodd fanylion am yr amgylchiadau'n arwain at y digwyddiad oedd yn ymwneud â symudiad tancer ar gyffordd. Yn dilyn y symudiad roedd y Gyrrwr wedi gollwng ei deithwyr ac wedi mynd yn ôl i weld gyrrwr y tancer er mwyn trafod ei ffordd o yrru. Fodd bynnag gwrthododd gyrrwr y tancer â siarad ag ef a cherddodd i ffwrdd ac ar y pryd hynny rhegodd arno. Nid oedd bwriad dadlau ond roedd y ffordd roedd gyrrwr y tancer wedi ymateb wedi achosi iddo golli ei dymer. Cyfaddefodd y Gyrrwr ei fod wedi ymddwyn yn annerbyniol ac roedd wedi cynnig ysgwyd llaw dair gwaith. Roedd yn cydnabod yn llwyr fod ei ymddygiad yn annerbyniol ac roedd yn ymwybodol o ddifrifoldeb y sefyllfa ac roedd yn edifar. Tra bo'r Gyrrwr wedi bod o flaen y pwyllgor ym mis Mehefin 2015 roedd natur yr achos hwnnw wedi bod yn wahanol ac fe gyfaddefodd y Gyrrwr ei euogrwydd ar yr achos hwnnw. Darparwyd esiamplau o gymeriad da'r Gyrrwr a chynghorwyd aelodau ei fod wedi dal trwydded y tu allan i'r ardal ac roedd â record hollol lân. Rhoddwyd manylion amgylchiadau personol y Gyrrwr a allai fod wedi effeithio ei ymateb i ryw raddau a dywedwyd y byddai colli ei drwydded yn golygu caledi ariannol.

Cymerodd Aelodau'r cyfle i gwestiynau'r Gyrrwr ar ddatganiad ei gyfweliad a'i fersiwn o'r digwyddiad a holwyd iddo beth oedd wedi bwriadu ei ennill o'i weithredoedd. Cynghorodd y Gyrrwr nad oedd wedi paratoi ar gyfer y cyfweliad gan nad oedd wedi cael gwybod beth oedd natur y gwyn ond o dan bwysau fe wnaeth gadarnhau fod ganddo syniad. Ymhelaethodd ar y digwyddiad o'i bersbectif ef gan ddweud ei fod yn teimlo ei fod wedi ei fwlio gan yrrwr y tancer a'i fod am ei holi am ei ddull o yrru ond roedd wedi ei bryfocio a chollodd ei dymer a chyfaddefodd wrth edrych yn ôl na fyddai'n cymryd y camau hynny eto. Dadleuodd ei fod wedi ei hel o'r eiddo a'i fod wedi ceisio ymddiheuro ar y pryd. Fel gyrrwr trwyddedig roedd yn gweld digwyddiadau traffig niferus yn aml heb ddial a dywedodd fod yr achos hwn yn enghraifft brin na fyddai'n cael ei ailadrodd yn y dyfodol.

Yn ei ddatganiad terfynol ailadroddodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol nad oedd yn fwriad gan y Gyrrwr achosi dadl pan aeth yn ôl i weld gyrrwr y tanc ac roedd yn wir edifar am yr hyn oedd wedi digwydd. Roedd y Gyrrwr wedi dysgu o'r profiad a byddai'n gweithredu'n wahanol pe bai'n wynebu amgylchiadau tebyg yn y dyfodol. Cyflwynwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau eraill o'r math hwn ac nad oedd y Gyrrwr yn tueddu i ddioddef o gythraul gyrru a'i fod yn fodlon ymddiheuro'n bersonol i yrrwr y tanc. Nid oedd y Gyrrwr ar unrhyw adeg wedi ceisio dadlau ei ran yn beth ddigwyddodd ond roedd yn edifar ac yn cydnabod fod ei ymddygiad yn annerbyniol. Wrth ystyried y cosbau gofynnwyd i'r pwyllgor beidio dirymu'r drwydded ond os oedd yr aelodau o blaid atal y drwydded dylai fod yn gymesur.

Ar y pwynt hwn, gohiriodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** *dirymu trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 15/0269/TXJDR ar sail diogelwch y cyhoedd ar unwaith.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos hwn, ynghyd â'r esboniad a roddwyd gan y Gyrrwr yn ei ddatganiad lliniarol. Tra'r oedd yr aelodau'n teimlo fod y Gyrrwr wedi derbyn ei fod wedi gwneud y peth anghywir a'i fod yn edifaru, nid oeddynt yn credu ei fersiwn o'r digwyddiadau yn llwyr ac roeddynt o'r farn ei fod wedi mynd i weld gyrrwr y tanc er mwyn ei wynebu a'i herio. Roedd ymddygiad a ffordd y Gyrrwr wrth ateb y cwestiynau yn ogystal â'r digwyddiad ei hun yn achosi'r pwyllgor i gredu ei fod yn ei chael hi'n anodd rheoli ei dymer ac roeddynt yn cwestiynu ei ffordd o feddwl o fynd yn ôl i wynebu gyrrwr y tancer ar ôl y digwyddiad, yn hytrach na gweithredu mewn dull arall, fel adrodd am y digwyddiad. Nid oedd y pwyllgor wedi eu perswadio taw digwyddiad ynysig oedd hwn ac nid oeddynt wedi eu sicrhau na fyddai digwyddiad tebyg yn digwydd eto yn y dyfodol mewn amgylchiadau tebyg a fyddai'n rhoi aelodau o'r cyhoedd mewn peryg. Cwestiynwyd uniondeb cymeriad y Gyrrwr hefyd o ystyried iddo ddweud yn y man cyntaf nad oedd syniad ganddo pam y cafodd ei gyfweld. Ystyriaeth bwysicaf y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd ac roedd ganddynt ddyletswydd i warchod y cyhoedd oedd yn teithio rhag Gyrrwr oedd wedi arddangos y gallu i golli ei dymer, dychwelyd i leoliad digwyddiad oedd wedi dod i ben a defnyddio iaith ddifrïol ac afiach, lle bu gofyn iddo adael y safle. Nododd Aelodau hefyd fod y Gyrrwr wedi diystyru rhybudd blaenorol am ei ymddygiad yn y dyfodol bymtheg mis yn unig ynghynt ac roedd ei ymddygiad yn adlewyrchu'n wael ar y diwydiant ac ar y cyngor. O ganlyniad roedd y pwyllgor yn teimlo nad oedd y Gyrrwr yn addas a chymwys ac nad oedd ganddo'r priodoleddau angenrheidiol i fod yn yrrwr trwyddedig a phenderfynwyd dirymu'r drwydded yn syth ar sail diogelwch y cyhoedd. Diystyriodd y pwyllgor yr effaith y byddai dirymu neu atal dros dro yn ei gael ar ei fywoliaeth a'i amgylchiadau teuluol gan nad oedd yn ystyriaeth berthnasol wrth edrych ar ei gymeriad a'i addasrwydd fel gyrrwr.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Gyrrwr a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.